

Beth ydw i?



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) wedi creu'r gêm yma i bwysleisio pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar archwilio sut mae anifeiliaid yn addasu i'w hamgylchedd a beth sydd ei angen arnynt i fyw.

Y Gêm...

Gêm dyfalu, wedi'i anelu at ddatblygu gwybodaeth unigolion am nodweddion, ymddangosiad a chynefinoedd pryfed ac anifeiliaid.

Sut i chwarae

Gellir cwblhau'r gweithgaredd yma mewn nifer o ffurf wahanol.

- Darllenwch allan y cardiau "Pwy ydw i?" yn uchel, un ar y tro i weld oes unrhyw un yn gallu dyfalu pa greadur sy'n cael ei ddisgrifio.
- Gosoda llun un o'r creaduriaid ar gefn pob unigolyn, fel bod modd i bawb arall yn y grŵp ei weld, ond nid yr unigolyn. Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, bydd pawb yn cymryd ei dro i ofyn cwestiynau am nodweddion y creadur, er mwyn cael ateb ie neu na gan y gweddill. Mae angen ceisio dyfalu pa greadur ydych yn seiliedig ar yr atebion a cheir.
- Rhannu'r grŵp yn barau. Bydd pob pâr yn cymryd tro i holi a dyfalu.
- Gofyn i'r grŵp eistedd mewn cylch. Rhoi cerdyn i bob unigolyn, gan egluro nad ydych chi eisiau iddynt edrych ar y cerdyn. Pan mae gan bawb gerdyn, gofynna i'r rhai sydd â cherdyn â llun arno edrych ar eu cerdyn, gan wneud yn siŵr nad oes neb arall yn gallu ei weld. Dewis unigolyn sydd â cherdyn gwybodaeth i ddarllen y cliwiau'n uchel i weddill y grŵp. Bydd gweddill y grŵp wedyn yn gallu dyfalu pa greadur mae'r cliwiau'n cyfeirio ato. Unwaith mae rhywun wedi dyfalu pâr yn gywir, defnyddio peg i'w gosod nhw nesaf at ei gilydd ar y lein.

WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS CLUBS

YFC Centre, Llanelwedd, Builth Wells, LD2 3NJ
01982 553502 information@yfc-wales.org.uk www.yfc.wales

